Help! Rwyf wedi cael fy newis i gael hyfforddiant yn Athrofa Padarn Sant 2021-22

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Rydym yn falch iawn bod eich esgob am eich noddi i gael hyfforddiant. Byddwn yn cysylltu â chi'n fwy ffurfiol ar ôl i ni dderbyn y ffurflen nawdd gan yr esgob. Fodd bynnag, efallai y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

I ddechrau, sicrhewch eich bod yn rhoi'r dyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn eich dyddiadur, a'ch bod yn trefnu amser o'r gwaith ar gyfer yr ysgol haf (neu unrhyw drefniadau eraill y bydd angen i chi eu gwneud) a gwneud yr un fath ar gyfer y penwythnosau preswyl os bydd angen.

<u>Ysgol Haf</u>

24-25 Gorff 2021	Rhaglen sefydlu 2021/22 **Pob** ymgeisydd **newydd** yn unig
25-30 Gorff 2021	Ysgol Haf 2020/21 **Pob ymgeisydd**

Campws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd.

15-17 Hyd 2021	Penwythnos preswyl, Lleoliad i'w Gadarnhau.
11-13 Chwe 2022	Penwythnos preswyl, Lleoliad i'w Gadarnhau.
21-23 Mai 2022	Penwythnos preswyl, Lleoliad i'w Gadarnhau.

Cynhelir y penwythnosau preswyl mewn gwahanol rannau o Gymru fel arfer, gan ddechrau gyda swper am 7pm.

Mae tri dull hyfforddi ar gael:

- Amser llawn, yn Athrofa Padarn Sant Caerdydd
- Amser llawn, yn yr Esgobaeth
- Rhan-amser

A hyfforddiant ar ffurf pedwar ‘conglfaen’:

- penwythnosau preswyl
- dysgu diwinyddol (academaidd)
- celloedd ffurfiannol
- lleoliad

Os byddwch yn hyfforddi ar gyfer **gweinidogaeth ran-amser**, byddwch fel arfer yn aros gartref, ac yn astudio diwinyddiaeth yn lleol drwy’r Rhaglen Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd, gan fynychu penwythnosau preswyl (pedair gwaith y flwyddyn) a chell ffurfiannol leol. Mae mwy o fanylion am ein cwrs Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd (BTh) ar ein gwefan. Er mai cwrs Saesneg ydyw, mae modd cyflwyno aseniadau yn y Gymraeg.

Os byddwch yn hyfforddi ar gyfer **gweinidogaeth llawn amser**, byddwch fel arfer yn dilyn rhaglen llawn amser sydd wedi ei leoli yn bennaf yn Athrofa Padarn Sant Caerdydd neu yn yr esgobaeth.

Yn y ddau achos, byddwch yn mynychu’r rhaglen rhwng dydd Mercher a dydd Gwener yn Athrofa Padarn Sant Caerdydd ble y byddwch yn rhan o gymuned Amser Llawn Padarn Sant i addoli, bwyta, cymdeithasu, gweddïo a chyd-ddysgu ag eraill sy’n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Bydd eich cell ffurfiannol yn cael ei chynnal ystod rhaglen dydd Mercher i ddydd Gwener a byddwch yn mynychu penwythnosau preswyl gyda phawb sy’n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth ledled Cymru.

Os ydych yn cael eich hyfforddi yn bennaf yn yr esgobaeth, weddill yr wythnos byddwch ar leoliad am ddau ddiwrnod ac yn treulio eich diwrnod astudio gartref. Os ydych yn cael eich hyfforddi yng Nghaerdydd byddwch yn gwneud eich lleoliad yng Nghaerdydd a’r cylch.

Y patrwm arferol yw:

Dydd Sul: lleoliad
Dydd Llun: lleoliad (neu diwrnod astudiaeth)
Dydd Mawrth: diwrnod astudiaeth (neu lleoliad)
Dydd Mercher: Caerdydd
Dydd Iau: Caerdydd
Dydd Gwener: Caerdydd
Dydd Sadwrn: diwrnod rhydd

Os hoffech gael cyngor, rhagor o wybodaeth neu i drafod y gwahanol ddewisiadau cysylltwch a lyn.davies@stpadarns.ac.uk a wnaiff drefnu bod un o'r tiwtoriad yn cysylltu â chi am sgwrs.

Credwn fod hyfforddiant yn fuddsoddiad pwysig ar gyfer y dyfodol ac felly rydym yn awyddus i sicrhau bod yr hyfforddiant rydym yn ei lunio ar eich cyfer yn un heriol ac yn eich gwthio ymlaen at gam nesaf eich taith weinidogol, waeth pa mor brofiadol neu gymwys yr ydych chi eisoes.

Bydd penderfyniadau ynglŷn â hyd a natur yr hyfforddiant yn fater trafod rhwng yr esgob â'r Athrofa. Fel rheol, mae hyfforddiant llawn amser am 3 blynedd neu weithiau 2 flynedd. Mae hyfforddiant rhan amser fel arfer am gyfnod o 3 blynedd. Byddwn hefyd yn ystyried eich profiad e.e. os ydych eisoes yn weinidog trwyddedig, neu â chymwysterau diwinyddol eisoes.

Bydd natur y cymhwyster a gewch ar y diwedd hefyd yn rhan bwysig o'r penderfyniadau hyn. Mae 6 blynedd rhan-amser a 3 blynedd llawn amser yn arwain at radd, 4 blynedd rhan-amser, 2 flynedd llawn amser yn arwain at ddiploma, a blwyddyn llawn amser, 2 flynedd rhan-amser yn arwain at dystysgrif. Bydd ymgeiswyr yn aml wedi cychwyn astudio'r cwrs Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd yn ystod y broses ddirnadaeth.

Mae'n llawer haws symud o astudio'r cwrs yn rhan amser i astudio yn llawn amser os ydych chi ar ddiwedd lefel. Mae gorffen hyfforddiant ar yr un pryd â gorffen lefel (4,5, neu 6)
hefyd yn golygu eich bod chi'n ennill cymhwyster, p'un a yw'n dystysgrif, diploma neu radd.

Gwybodaeth ymarferol:

Grantiau

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn rhoi grantiau i bobl sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. I gael fwy o wybodaeth am grantiau ac i gyfrifo faint allech fod yn gymwys gan ddefnyddio'r Cyfrifiannell Grantiau, ewch i:

https://www.stpadarns.ac.uk/cy/ministry/formation-licensed-ministry/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â Kathryn Delderfield, ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau sy'n ymdrin â grantiau:

E-bost: Kathryn.Delderfield@stpadarns.ac.uk Ffôn: 029 2056 3379
Ffôn symudol: 07388994732

Costau

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a fydd yn teithio i Gaerdydd o ddydd Mercher i ddydd Gwener, caiff y costau teithio eu cyfrifo a'u cynnwys yn eich taliadau grant misol. Dylid cwblhau'r ffurflen dreuliau ar gyfer lleoliad ar Moodle. Gall ymgeiswyr wneud cais am gostau teithio i fannau preswyl a theithio i leoliadau y tu allan i ardal eu gweinidogaeth.

Edrychwch ar y wefan i gael rhagor o wybodaeth:
https://www.stpadarns.ac.uk/cy/ministry/formation-licensed-ministry/

Dysgu Diwinyddiaeth

Ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi yn llawn amser, cynhelir y modiwlau diwinyddiaeth yn ystod y rhaglen dydd Mercher i ddydd Gwener. Ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi'n rhan amser, byddwch chi'n ymuno â myfyrwyr rhan amser eraill ledled Cymru sy'n astudio Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd (rhaglen BTh). Mae mwy o wybodaeth am y cwrs ar gael ar wefan St Padarn o dan Theology for Life / Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd.



Ar y rhaglen ran amser, byddwch chi'n mynychu dau seminar bob tymor, un ar y cychwyn, ar Zoom, a'r llall yng nghanol y tymor. Mae tri lleoliad ar gyfer y seminarau canol tymor, un yng ngogledd Cymru, un yng Nghaerfyrddin ac un yng Nghaerdydd.

Rydym yn cynnal rhaglen rhagarweiniol ar gyfer Diwinyddiaeth ar Gyfer Bywyd (y BTh). Bydd gwybodaeth am hwn ar ein cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch am ragor o wybodaeth.

Ymgeiswyr ar gyfer Gweinidogaeth Athrofa Padarn Sant: Dyddiadau dysgu 2021/2022

Rhowch yr holl ddyddiadau sy'n berthnasol i chi yn eich dyddiadur cyn gynted â phosibl. Mae pob cyfnod preswyl yn rhan orfodol o'r hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr llawn amser a rhan-amser.

Bloc Dysgu 1

Dyddiad	Beth	Pwy?
11 Medi 2021	Seminar Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd (BTh) ar lein	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
13 Medi-10 Rhag 2021	8 sesiwn wythnosol	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
16 Medi-26 Tachwedd 2021	Cwrs Lefel 6 Nosweithiau Iau ar lein 7-9pm	Pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd (llawn amser a rhan-amser) **sy'n astudio lefel 6 yn unig**
15-17 Medi 2021	wythnos llawn amser 1	Ymgeiswyr llawn amser
22-24 Medi 2021	wythnos llawn amser 2	Ymgeiswyr llawn amser
29 Medi- 1 Hydref 2021	wythnos llawn amser 3	Ymgeiswyr llawn amser
6-8 Hydref 2021	wythnos llawn amser 4	Ymgeiswyr llawn amser
13-15 Hydref 2021	wythnos llawn amser 5	Ymgeiswyr llawn amser
15-17 Hydref 2021	**Penwythnos preswyl yr Hydref y lleoliad i'w drefnu**	**Pob ymgeisydd, yn rhan amser a llawn amser**
20-22 Hydref 2021	wythnos llawn amser 6	Ymgeiswyr llawn amser
25-29 Hydref 2021	**Hanner tymor** (ni chynhelir y rhaglen Mercher-Gwener)	Ymgeiswyr llawn amser
3-5 Tachwedd 2021	wythnos llawn amser 7	Ymgeiswyr llawn amser
6 Tachwedd 2021	Seminar canol tymor mewn nifer o safleoedd	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
10-12 Tachwedd 2021	wythnos llawn amser 8	Ymgeiswyr llawn amser
17-19 Tachwedd 2021	wythnos llawn amser 9	Ymgeiswyr llawn amser
24-26 Tachwedd 2021	wythnos llawn amser 10	Ymgeiswyr llawn amser

Bloc Dysgu 2

2 Rhag – 3 Mawrth 2022	Cwrs Lefel 6 Nosweithiau Iau ar lein 7-9pm	Pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd (llawn amser a rhan-amser) sy'n astudio **lefel 6 yn unig**
1-3 Rhag 2021	wythnos llawn amser 1	Ymgeiswyr llawn amser
8-10 Rhag 2021	wythnos llawn amser 2	Ymgeiswyr llawn amser
13 Rhag- 3 Ionawr 2022	**Nadolig**	
5-7 Ionawr 2022	wythnos llawn amser 3	Ymgeiswyr llawn amser
8 Ionawr 2022	Seminar Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd (BTh) ar lein	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
10 Ion- 4 Mawrth 2022	8 sesiwn wythnosol	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
12-14 Ionawr 2022	wythnos llawn amser 4	Ymgeiswyr llawn amser
19-21 Ionawr 2022	wythnos llawn amser 5	Ymgeiswyr llawn amser

Dyddiad	**Beth**	**Pwy**
26-28 Ionawr 2022	wythnos llawn amser 6	Ymgeiswyr llawn amser
2-4 Chwefror 2022	wythnos llawn amser 7	Ymgeiswyr llawn amser
5 Chwefror 2022	Seminar Canol Tymor mewn nifer o safleoedd	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
9-11 Chwefror 2022	wythnos llawn amser 8	Ymgeiswyr llawn amser
11-13 Chwefror 2022	**Penwythnos preswyl, y lleoliad i'w gyhoeddi**	**Pob ymgeisydd, yn rhan a llawn amser**
16-18 Chwefror 2022	wythnos llawn amser 9	Ymgeiswyr llawn amser yn unig
21-25 Chwefror 2022	**Hanner tymor**	Ymgeiswyr llawn amser
2-4 Mawrth 2022	wythnos llawn amser 10	Ymgeiswyr llawn amser

Bloc Dysgu 3

9-11 Mawrth 2022	wythnos llawn amser 1	Ymgeiswyr llawn amser
10 Mawrth – 26 Mai 2022	Cwrs Lefel 6 Nosweithiau Iau ar lein 7-9pm	Pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd (llawn amser a rhan-amser) sy'n astudio **lefel 6**
12 Mawrth 2022	Seminar Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd (BTh) ar lein	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
15 Mar-11 June 2022	8 sesiwn wythnosol	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser

16-18 Mar 2022	wythnos llawn amser 2	Ymgeiswyr llawn amser
23-25 Mar 2022	wythnos llawn amser 3	Ymgeiswyr llawn amser
30 Mar-1 Apr 2022	wythnos llawn amser 4	Ymgeiswyr llawn amser
6-8 Ebrill 2022	**Gwyliau'r Pasg**	Pob ymgeisydd
13-15 Ebrill 2022	**Yr Wythnos Fawr**	Pob ymgeisydd
20-22 Ebrill 2022	**Wythnos y Pasg**	Pob ymgeisydd
27-29 Ebrill 2022	wythnos llawn amser 5	Ymgeiswyr llawn amser
4-6 May 2022	wythnos llawn amser 6	Ymgeiswyr llawn amser
7 May 2022	Seminar Canol Tymor mewn nifer o safleoedd	pob myfyriwr rhan amser a phob ymgeisydd rhan amser
11-13 May 2022	wythnos llawn amser 7	Ymgeiswyr llawn amser
18-20 May 2022	wythnos llawn amser 8	Ymgeiswyr llawn amser
21-23 May 2022	**Penwythnos preswyl y Gwanwyn Y lleoliad i'w gyhoeddi**	**Pob ymgeisydd yn rhan a llawn amser**
25-27 May 2022	wythnos llawn amser 9	Ymgeiswyr llawn amser
1-3 June 2022	wythnos llawn amser 10	Ymgeiswyr llawn amser

Gwyliau Banc Mai : Dydd Llun 02 Mai 2022 a Dydd Llun 30 Mai 2022